# Swyddog Hyrwyddo Cydymffurfiaeth

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Teitl swydd:** Swyddog Hyrwyddo Cydymffurfiaeth

**Math o gontract:** Tymor penodol 12 mis – cyfnod mamolaeth

**Oriau Gwaith:** Llawn amser (37 awr yr wythnos)

**Cyflog:** £37,112 - £45,379 y flwyddyn. Penodir ar waelod y raddfa fel rheol.

**Lleoliad:** Lleolir swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Gweithredir trefniant hybrid o weithio, gyda disgwyliad clir y bydd staff yn mynychu'r swyddfa o leiaf un diwrnod yr wythnos ar ddiwrnod angori penodedig, yn unol â threfniadau'r swyddfa berthnasol. Yn ogystal, anogir staff i weithio ail ddiwrnod yn y swyddfa lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn cefnogi cydweithio, dysgu ar y cyd a chysylltiad tîm. Ystyrir hefyd yr opsiwn i fod yn Weithiwr Cartref os nad ydych yn byw o fewn pellter rhesymol o un o swyddfeydd y Comisiynydd.

## Y swydd

Mae gennym gyfle cyffrous i berson brwdfrydig sy'n dymuno gweithio gyda'r Comisiynydd i wella perfformiad sefydliadau wrth iddynt ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd y swydd yn cynnwys cyfrifoldeb penodol am oruchwylio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â safonau'r Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni trwy swyddi@cyg-wlc.cymru neu 0345 6033 221.

**Dyddiad cau:** 22/02/2026 am 17:00yh
**Dyddiad y cyfweliad:** Wythnos yn cychwyn 9 Mawrth 2026

## Amdanom ni

**Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'n egluro beth yw rôl y Comisiynydd a'i staff. Mae'r Comisiynydd yn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau a gorfodi'r dyletswyddau hynny lle bo angen, mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i gwynion. Ymchwilir hefyd i geisiadau yn ymwneud ag ymyrraeth â'r rhyddid sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn gwneud gwaith megis ymchwilio, cyhoeddi adroddiadau yn ogystal â rhoi cyngor a gwneud argymhellion. Gwneir gwaith dylanwadu ar bolisi lle mae gwneud hynny'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach gan weithio yn y trydydd sector a'r sector preifat. Yn fwy cyffredinol mae'n gyfrifol am safoni enwau lleoedd ac am hyrwyddo cynllun

**Iaith Gwaith** a chynhelir ymgyrchoedd ymysg defnyddwyr y Gymraeg yn rheolaidd i roi gwybod am ein gwaith a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

# Disgrifiad swydd

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Teitl swydd:** Swyddog Hyrwyddo Cydymffurfiaeth
**Yn atebol i:** Uwch Swyddog Hyrwyddo Cydymffurfiaeth
**Graddfa:** HEO

**Prif Ddyletswyddau**

**Datblygu a gweithredu cynllun monitro**

1. Cynghori a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun monitro i asesu cydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith Gymraeg.

2. Bod yn gyfrifol am weithredu cynllun monitro, gan gynnal perthynas briodol â portffolio o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau iaith Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys:

    - casglu a dadansoddi gwybodaeth o amrediad o ffynonellau am gydymffurfiaeth sefydliadau sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau iaith Gymraeg
    - ffurfio barn ar y graddau mae sefydliadau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau gan ymyrryd yn ôl yr angen, ac yn unol â chanllawiau a pholisïau'r Comisiynydd
    - ffurfio barn ar y graddau y dylid cynnal ymchwiliadau ar fenter i fethiant sefydliadau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg
    - monitro gweithrediad unrhyw gamau neu gynlluniau gweithredu a roddir mewn lle yn dilyn derbyn cwyn neu gynnal ymchwiliad.

**Adroddiadau ar gydymffurfiaeth**

3. Bod yn gyfrifol am lunio adroddiadau ar faterion cydymffurfiaeth ac argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr adroddiadau hyn yn helpu i lywio penderfyniadau a sbarduno newid cadarnhaol o ran cydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith Gymraeg.

**Cynlluniau Iaith Gymraeg**

4. Bod yn gyfrifol am gytuno cynlluniau iaith newydd a/neu ddiwygiedig ar gyfer sefydliadau nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithredu safonau'r Gymraeg.

**Rhaglen Hyrwyddo Cydymffurfiaeth**

5. Bod yn gyfrifol am weithredu agweddau o raglen hyrwyddo cydymffurfiaeth blynyddol ar gyfer sefydliadau sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau iaith Gymraeg.

**Codau Ymarfer, Dogfennau Cyngor a Chanllawiau Ymarferol**

6. Bod yn gyfrifol am lunio Codau Ymarfer statudol, gan gynnwys ymgynghori'n eang a chodi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'u cynnwys.

7. Bod yn gyfrifol am lunio dogfennau cyngor, gan gynnwys ymgynghori'n eang a chodi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'u cynnwys.

8. Bod yn gyfrifol am ddatblygu adnoddau a/neu ganllawiau, ymarferol neu fel arall, i hyrwyddo cydymffurfiaeth sefydliadau â dyletswyddau iaith Gymraeg.

**Addysgu ac Arloesi**

9. Bod yn gyfrifol am gasglu astudiaethau achos, arferion effeithiol a/neu ganfyddiadau arwyddocaol o ymchwiliadau gorfodi, a lledaenu'r wybodaeth honno'n effeithiol ymhlith rhanddeiliaid trwy ystod o ddulliau cyfathrebu.

10. Bod yn gyfrifol am rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r materion isod â rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau iaith Gymraeg:
    - gwrandawiadau Tribiwnlys y Gymraeg
    - ymchwiliadau i honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg
    - yr egwyddor bod gan unigolyn ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg ag unigolion eraill yng Nghymru.

11. Cyfrannu at waith y Comisiynydd i adeiladu darlun mwy cynhwysfawr o dueddiadau sefydliadau a datblygiadau arloesol newydd er mwyn:
    - deall goblygiadau cyffredin a chyfleoedd ar gyfer rheoleiddio, ac
    - ystyried sut y gallwn ninnau fel rheoleiddiwr ddefnyddio arloesedd i gyflawni ein gwaith ein hunain yn fwy effeithiol.

**Polisïau a Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg**

12. Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a/neu addasu fframwaith a pholisïau rheoleiddio perthnasol y Comisiynydd.

13. Cynghori'r Uwch Swyddog(ion) Hyrwyddo Cydymffurfiaeth ar effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg, a'r graddau y maent yn parhau i fod yn berthnasol a phriodol i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu gan sefydliadau.

**Dyletswyddau cyffredinol**

14. Gweithredu'n gyson ac yn amserol yn unol â holl bolisïau a chanllawiau'r Comisiynydd

15. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl y galw ac ar gais y Comisiynydd.

# Manyleb person

**Cymwysterau**

| **Hanfodol** |
| --- |
| • Gradd, gymhwyster cyfatebol neu brofiad mewn maes perthnasol. |
| **Dymunol** |
| • Tystiolaeth o astudio a/neu ddatblygu parhaus mewn maes perthnasol. |

**Profiad**

| **Hanfodol** |
| --- |
| • Profiad o ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a'i gyflwyno mewn ffordd ddealladwy i eraill.<br>• Profiad o ymchwilio a chasglu tystiolaeth, gwaith dadansoddi a ffurfio casgliadau rhesymol.<br>• Profiad o lunio adroddiadau yn mynegi safbwynt ar sail deall a dehongli gwaith ymchwil a thystiolaeth. |
| **Dymunol** |
| • Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus.<br>• Profiad o weithio gyda sefydliadau sydd o dan ddyletswydd statudol. |

**Sgiliau a Gwybodaeth**

| **Hanfodol** |
| --- |
| • Ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br>• Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig).<br>• Y gallu i gydweithio a chyfathrebu gyda staff, y cyhoedd a sefydliadau allanol a sicrhau cydweithrediad effeithiol a phroffesiynol ar bob lefel yn fewnol ac yn allanol.<br>• Y gallu i ennyn parch cydweithwyr, y cyhoedd a sefydliadau allanol.<br>• Y gallu i baratoi a chyflwyno adroddiadau yn broffesiynol ac i safon uchel.<br>• Sgiliau dylanwadu a pherswadio. |
| **Dymunol** |

- Ymwybyddiaeth neu brofiad o weithredu yn unol ag egwyddorion bywyd cyhoeddus a rheoleiddio effeithiol.

**Priodoleddau Personol**

| Hanfodol |
|---|
| • Diddordeb brwd yn yr iaith Gymraeg a materion Cymreig<br>• Diddordeb mewn gwaith rheoleiddio statudol.<br>• Gallu blaenoriaethu gwaith a gweithio i amserlenni tynn.<br>• Gallu hunan ysgogi a gweithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm.<br>• Gallu gwneud penderfyniadau a gweithredu arnynt.<br>• Sgiliau rhyngbersonol cryf mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol<br>• Creadigol, brwdfrydig ac egnïol wrth ganfod dulliau gwreiddiol o weithredu. |